# The Benefits of Continual Professional Development Refreshers (CPD) in Playwork

## The Importance of Continuing Professional Development Refreshers (CPD) in Playwork

A Continuing Professional Development (CPD) course is a great opportunity to brush up on your Playwork. It can also be an opportunity for new staff to get a taste of what Playwork is all about.

Refresher training ensures that staff maintain their knowledge and competence to provide a quality service. It is recommended that all those who work with children continually improve their knowledge of children's play. For managers this may be noticing the gaps in your setting, for other employees it may be to reduce the likelihood of mistakes and to create an understanding of the importance of play and their role. Altogether this encourages a learning culture and shared responsibility of play opportunities.

Regarding Care Inspectorate Wales (CIW) and The National Minimum Standards (NMS), attending refresher training supports compliance with current regulations, guidelines and policies. Without attending these, playworkers are at risk of not renewing any outdated training previously learnt. The NMS states: "The registered person is responsible for ensuring that- The continuing training needs of staff are addressed and provided for on a regular basis.". It is also a great way to demonstrate professional development and responsibility in your quality of care.

## Newport Clubs Continuing Professional Development Refresher Days

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Childcare Business Development Officers used an underspend through the Newport Children and Communities Grant to fund a CPD course for all clubs in Newport. In total nine settings attended with a mixture of qualified and new staff. This now means that 25% of Newport's out of school childcare clubs have updated their knowledge to ensure compliance and provide quality.

This was delivered through 4 online sessions via Zoom and 1 in person interactive morning in a local venue. The sessions covered the importance of playwork, loose parts, risk benefits and bringing the theory to life with practical skills. Clubs that attended all sessions were awarded a free den building kit (funded by grant).

## Impact of the course on staff

At the end of the course, the attendees were asked to complete an evaluation form. All feedback was positive for both the course and trainer. The CPD has also motivated and inspired two individuals to progress with their play qualifications onto level 2 and 3.

## How did the CPD course impact your practice?

> "This course refreshed my playwork knowledge in a fun, relaxed group"
>
> "This has been a fantastic refresh with handy tips. A friendly group"
>
> "A relaxed environment to allow everyone to engage freely and comfortably"

## What did you think of the tutor?

> "Tutor is fantastic"
>
> "Love Bev! Her passion for play is amazing"
>
> "Bev- passionate, Nia- supportive"

If you need support or have any queries (big or small), don't hesitate to contact us here at Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, we're here to help: info@clybiauplantcymru.org

You can find out more about the support we can offer your club at our website: www.clybiauplantcymru.org

# Manteision Cyrsiau Gloywi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) mewn Gwaith Chwarae

## Pwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus Gloywi (DPP) mewn Gwaith Chwarae

Mae cwrs Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn gyfle gwych i loywi eich Gwaith Chwarae. Gall hefyd fod yn gyfle i staff newydd gael blas ar yr hyn y mae Gwaith Chwarae yn ei olygu.

Mae hyfforddiant gloywi yn sicrhau bod staff yn cynnal eu gwybodaeth a'u cymhwysedd i ddarparu gwasanaeth o safon. Argymhellir bod pawb sy’n gweithio gyda phlant yn gwella eu gwybodaeth o chwarae plant yn barhaus. I reolwyr gall hyn olygu sylwi ar fylchau yn eich lleoliad, i weithwyr eraill efallai y byddent am leihau'r tebygolrwydd o gamgymeriadau a chreu dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae a'u rôl. At ei gilydd mae hyn yn annog diwylliant o ddysgu a chyfrifoldeb ar y cyd am gyfleoedd chwarae.

O ran Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, mae mynychu hyfforddiant gloywi yn cefnogi cydymffurfiaeth â rheoliadau, canllawiau a pholisïau cyfredol. Heb fynychu'r rhain, mae gweithwyr chwarae mewn perygl o beidio ag adnewyddu unrhyw hen hyfforddiant a ddysgwyd yn flaenorol. Mae'r SGC yn nodi: “Y person cofrestredig sy'n gyfrifol am sicrhau- bod anghenion hyfforddi parhaus y staff yn cael sylw ac y darperir ar eu cyfer yn rheolaidd.”. Mae hefyd yn ffordd wych o ddangos datblygiad proffesiynol a chyfrifoldeb yn ansawdd eich gofal.

## Diwrnodau Gloywi Datblygiad Proffesiynol Parhaus Clybiau Casnewydd

Defnyddiodd Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant Clybiau Plant Cymru danwariant drwy Grant Plant a Chymunedau Casnewydd i ariannu cwrs DPP ar gyfer pob clwb yng Nghasnewydd. Fe’i mynychwyd gan gyfanswm o naw lleoliad gyda chymysgedd o staff cymwys a newydd. Mae hyn bellach yn golygu bod 25% o glybiau gofal plant all-ysgol Casnewydd wedi diweddaru eu gwybodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a darparu ansawdd. Cyflenwyd hyn trwy 4 sesiwn ar-lein trwy Zoom ac 1 bore rhyngweithiol wyneb-yn-wyneb mewn lleoliad lleol. Roedd y sesiynau’n ymdrin â phwysigrwydd gwaith chwarae, rhannau rhydd, manteision risg a dod â’r theori yn fyw gyda sgiliau ymarferol. Dyfarnwyd pecyn adeiladu-den am ddim i glybia

## Effaith y cwrs ar y staff

Ar ddiwedd y cwrs, gofynnwyd i'r mynychwyr lenwi ffurflen werthuso. Roedd yr holl adborth yn gadarnhaol ar gyfer y cwrs a'r hyfforddwr. Mae'r DPP hefyd wedi ysgogi ac ysbrydoli dau unigolyn i symud ymlaen â'u cymwysterau chwarae i lefel 2 a 3.

## Sut effeithiodd y cwrs DPP ar eich arferion?

> "Fe wnaeth y cwrs hwn adnewyddu fy ngwybodaeth gwaith chwarae mewn grŵp hwyliog, hamddenol"
>
> "Mae hwn wedi bod yn adnewyddiad gwych gydag awgrymiadau defnyddiol. Grŵp cyfeillgar"
>
> "Amgylchedd hamddenol i alluogi pawb i ymgysylltu'n rhydd ac yn gyfforddus"

## Beth oedd eich barn am y tiwtor?

> "Mae'r tiwtor yn wych"
>
> "Caru Bev! Mae ei hangerdd am chwarae yn anhygoel"
>
> "Bev-angerddol, Nia- cefnogol"

Os oes angen cymorth arnoch neu os oes gennych unrhyw ymholiadau peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni yma yng Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, rydym yma i helpu: info@clybiauplantcymru.org

Gallwch ddod i wybod mwy am y gefnogaeth y gallwn ei chynnig i'ch clwb ar ein gwefan: www.clybiauplantcymru.org